Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Ymchwiliad i'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwyster a Gweithredu - nodyn cryno o'r grwpiau ffocws

1 Mai 2019

Y cefndir

Fel rhan o ymchwiliad y **Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau** i'r **Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru**, mae Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn casglu safbwyntiau dinasyddion ledled Cymru ar y Cynllun.

Methodoleg

Awgrymodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ymagwedd ymchwil ansoddol at yr ymchwiliad a gyflwynwyd ar ffurf cyfres o grwpiau ffocws. Cytunodd y Pwyllgor ar y dull hwn ym mis Ionawr 2019.

Trefnwyd **12 grŵp ffocws** ledled Cymru yn cynnwys **102 o ddinasyddion** o **bob un o bum rhanbarth y Cynulliad**. Trefnwyd grwpiau ffocws yn Abertawe (Pontarddulais), Caerdydd, Caerffili, Ceredigion (Aberystwyth), Gwynedd (Bangor), Pen-y-bont ar Ogwr, Powys (Trefyclo a Llandrindod), Sir Benfro (Hwlffordd), a Sir y Fflint (Yr Wyddgrug a Shotton). Daeth y rhai a gymerodd ran yn y sesiynau grŵp ffocws o'r ardaloedd awdurdod lleol uchod ac ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys deiliaid presennol a chyn-ddeiliaid y Bathodyn Glas, ymgeiswyr posibl y Bathodyn Glas, y rhai a gafodd eu ceisiadau wedi'u gwrthod, gofalwyr a staff perthnasol y cyngor.

Daethpwyd o hyd i'r cyfranogwyr drwy nifer o sefydliadau a grwpiau perthnasol, gan gynnwys Age Cymru, Gofalwyr Cymru, Credu, Anabledd Cymru, Anabledd Dysgu Cymru a'r Gymdeithas MS, yn ogystal â fforymau anabledd a grwpiau mynediad yn Arfon, Ceredigion, Powys, Sir y Fflint a Threfyclo. Daethpwyd o hyd i gyfranogwyr eraill drwy fideo esboniadol byr ar y Cynllun a gafodd ei hyrwyddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cynulliad.

Fformat

Trafododd y cyfranogwyr y themâu a ganlyn fel rhan o'r sesiynau grŵp ffocws:

- Y cymorth, y wybodaeth a'r canllawiau sydd ar gael ar y Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru (gan gynnwys hygyrchedd gwybodaeth - braille, hawdd ei darllen ac ati)
- Y broses o wneud cais
- Meini prawf cymhwyster ar gyfer Bathodyn Glas
- Y broses asesu
- Ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Gwrthod cais am Fathodyn Glas
- Y broses o ailwneud cais
- Camddefnyddio'r Cynllun Bathodyn Glas
- Gorfodaeth
- Y ffioedd a godir am fathodyn newydd
- Unrhyw ddirywiad mewn hawliau fel deiliad Bathodyn Glas (er enghraifft, codi tâl am barcio).

Crynodeb o'r cyfraniadau allweddol

Cymorth a gwybodaeth

Cytunodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr y grwpiau ffocws fod angen mwy o gymorth a gwybodaeth i'r rhai sydd am wneud cais am Fathodyn Glas.

> *"Rydw i wedi bod â Bathodyn Glas ers imi fod yn tua 50 oed ac roedd yn arfer bod yn hawdd, ond ddim erbyn hyn. Mae pobl sydd wedi bod â bathodyn ers blynyddoedd yn cael eu gwrthod rhag adnewyddu. Maen nhw'n symud pyst y gôl drwy'r amser."*

Deiliad Bathodyn Glas, Caerdydd

Yn ogystal â mwy o gymorth a gwybodaeth ar y cam gwneud cais, roedd llawer o'r cyfranogwyr yn credu y dylai gwybodaeth fod ar gael yn rhwydd am leoliadau, maint ac amrywiaeth y lleoedd parcio anabl.

"Byddai'n dda cael ap map tebyg i Google Maps, y gallech chi ei lwytho ar eich ffôn i ddangos lle mae lleoedd parcio anabl. Gallwch chi weld ble mae bwytai a gorsafoedd tanwydd ar Google Maps, felly pam ddim lleoedd parcio? Byddai hynny'n anhygoel a byddai o fudd i lawer o bobl anabl."

Deiliad Bathodyn Glas, Caerdydd

Er bod y mwyafrif o'r cyfranogwyr o'r farn bod angen mwy o gymorth a gwybodaeth ar y cam gwneud cais, cafodd rhai brofiadau cadarnhaol.

"Gyda fi, roedd ei gael (y Bathodyn Glas) yn hawdd iawn gan fod yr RNIB (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion) wedi gwneud gwaith gwych yn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhoi i bobl sydd â nam ar eu golwg, mewn amrywiaeth o ffyrdd - ac mae'r gwasanaeth swyddogion cyswllt clinig llygaid yn adnodd gwych i sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd pobl sydd â nam ar eu golwg, ond efallai nad yw hynny'n wir am anableddau eraill."

Deiliad Bathodyn Glas, Powys

Eglurodd llawer o'r cyfranogwyr mai'r sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu'r cymorth yn bennaf i'r rhai sydd angen help gyda chais am Fathodyn Glas, ond mae hyn yn lleihau.

"Un o'r problemau mwyaf yw sefydliadau gwirfoddol - mae eu gwasanaethau'n cael eu lleihau. Rydyn ni'n cael ein torri i'r craidd, felly ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i bobl sydd angen help gyda'r ffurflen gais."

Gofalwr, Powys

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr a ddisgrifiodd brofiadau cadarnhaol o'r broses wneud cais y rhai a oedd yn gymwys i gael Bathodyn Glas yn awtomatig.

"Rwy'n dod o Lanelli ac erioed wedi gorfod dangos fy hun. Tydyn nhw (Cyngor Sir Caerfyrddin) erioed wedi gwneud imi deimlo'n fach."

Deiliad Bathodyn Glas, Sir Gaerfyrddin

Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr fod heriau unigryw i'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu sydd â nam difrifol ar eu golwg.

"Rwy'n eithaf da ar gyfrifiadur ac mae gen i fynediad at ddigon o dechnoleg â chymorth, ond roeddwn i'n ei chael hi'n anodd dod o hyd iddi (gwybodaeth yn ymwneud â'r Cynllun Bathodyn Glas), ac yna dod o hyd i fersiwn y gallwn i ei darllen."

Deiliad Bathodyn Glas, Caerdydd

Mae cyfran fawr o'r rhai sydd wedi colli eu golwg yn bobl hŷn, ac efallai nad oes gan lawer ohonynt fynediad at y rhyngrwyd neu mae ganddynt sgiliau digidol isel. Awgrymwyd y byddai rhif ffôn pwrpasol yn ddefnyddiol.

Trafodwyd hygyrchedd ffurflenni cais o ran yr iaith a ddefnyddir ac argaeledd copïau caled. Dywedodd rhai o'r cyfranogwyr fod yr iaith ar y ffurflen gais a'r canllawiau ategol yn ddryslyd, yn eu barn hwy.

"Pam nad ydyn nhw'n sicrhau bod y ffurflenni ar gael mewn mannau cyhoeddus fel llyfrgelloedd? Does gan bawb ddim y rhyngrwyd. "

Deiliad Bathodyn Glas, Gwynedd

Yr asesiad

Roedd rhai o'r cyfranogwyr o'r farn nad oes gan y rhai sy'n cynnal yr asesiad y lefel o wybodaeth ac arbenigedd sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniad gwybodus ar gymhwyster ymgeisydd am Fathodyn Glas.

"Cefais fy ngwrthod unwaith - mae gen i broblemau calon ac anadlu, ond does ganddyn nhw ddim diddordeb yn hynny. Roedd ganddyn nhw fwy o ddiddordeb mewn gwybod os oes gen i reiliau wedi'u gosod yn fy nhŷ. Fe wnaethon nhw hefyd ofyn a oedd gen i ffon gerdded - dylwn i fod wedi cael oddeutu 15 o gwestiynau, ond dydw i ddim yn cofio cymaint â hynny."

Cyn-ddeiliad Bathodyn Glas, Pen-y-bont ar Ogwr

"Mae'r bobl sy'n gweithio yn yr adeilad yma (swyddfeydd y cyngor) yn glercod. Does gan y rhan fwyaf ddim profiad o unrhyw fath o gyflwr meddygol. Os bydd meddyg yn dweud 'Mae angen hwn (y Bathodyn Glas) ar y person hwn', y cyfan y dylai'r cyngor ei wneud yw cyflwyno'r bathodyn. Holl ffocws yr asesiadau yw pwyntiau. Sut ydych chi'n cael pwyntiau? Ches i ddim gwybodaeth am hynny ac yn sicr gall hynny

amrywio o un asesydd i'r llall. Ni ddylai ymwneud â phwyntiau - mae iechyd a lles rhywun yn y fantol."

Rhiant ymgeisydd Bathodyn Glas y gwrthodwyd ei gais, Ceredigion

Cytunodd yr holl gyfranogwr y byddai cael asesydd yn cynnal yr asesiad yng nghartref yr ymgeisydd yn ddefnyddiol pan fo hynny'n bosibl.

"Rydyn ni'n clywed cymaint am asesu ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, sy'n greulon ac yn ddiraddiol ac yn cael ei wneud gan bobl sydd i fod yn broffesiynol, ond nad oes ganddyn nhw brofiad na dealltwriaeth o'ch problem benodol. Cyn belled nad yw'r asesiadau Bathodyn Glas yn cael eu cynnal gan yr un bobl, mae hynny'n iawn."

Deiliad Bathodyn Glas, Pen-y-bont ar Ogwr

Roedd y rhai yr ystyriwyd eu bod yn "amodol ar asesiad pellach" yn tueddu i sôn am brofiadau mwy negyddol o'r broses asesu a oedd yn cynnwys anhawster parcio yn swyddfeydd y cyngor/natur anhygyrch swyddfeydd y cyngor, y straen o orfod cael asesiad ac amheuon ynghylch arbenigedd aseswyr.

"Roedden ni'n eistedd yno am oesoedd. Cafodd ffurflen i'w llenwi a chynhyrfodd hyn hi ar unwaith. Dywedodd rhywun wrthi am sefyll yn erbyn wal i dynnu ei llun. Ymddengys imi y gellid symleiddio'r broses gymaint. Mae fy ngwraig yn derbyn yr elfen symudedd uchaf o'r Taliad Annibyniaeth Personol - onid dyna i gyd y mae angen iddi ei ddangos? Dylai allu anfon copi o ffurflen y Taliad at yr awdurdod lleol a dylai'r Bathodyn Glas gyrraedd yn y post."

Partner deiliad Bathodyn Glas, Abertawe

Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr fod gan rai gyflyrau parhaol sy'n annhebygol o wella neu y byddant yn dirywio ac felly nid yw'n gwneud synnwyr cynnal ailasesiad ar gyfer Bathodyn Glas. Dylai synnwyr cyffredin drechu mewn amgylchiadau o'r fath.

"Mae yna grŵp penodol o bobl rydych chi'n gwybod nad ydyn nhw am wella. Ddylen nhw ddim cael eu hasesu mor aml ag y maen nhw. Dylai fod fel trwydded yrru lle mae'r bathodyn yn para am ddeng mlynedd i bobl sydd â chyflyrau penodol."

Rhiant deiliad Bathodyn Glas, Sir Benfro

Clywsom farn hefyd gan gyfranogwr a fu'n ymwneud â gweinyddu Bathodynnau Glas yn y gorffennol.

"Felly gyda'r hen ffurflenni, y gwnaethon nhw eu newid yn ddiweddar i'r ffurf hirfaith iawn hon - ches i erioed hyfforddiant meddygol, ond fe fyddwn i'n darllen drwy'r ffurflen ac roedd yn hawdd iawn dweud a oedd gan y person hawl awtomatig neu a fyddai angen anfon rhywbeth at y meddyg teulu. Y gweithiwr meddygol proffesiynol fyddai'n gwneud y penderfyniad hwnnw mewn gwirionedd."

Cyfranogwr â phrofiad o weinyddu Bathodynnau Glas, Powys

Camddefnyddio'r Cynllun Bathodyn Glas a cham-drin deiliaid Bathodynnau Glas

Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch a oedd camddefnyddio'r Cynllun Bathodyn Glas yn rhywbeth cyffredin yng Nghymru. Er bod rhai o'r cyfranogwyr wedi rhannu straeon am ffrindiau a/neu deulu deiliaid Bathodyn Glas yn defnyddio'r Bathodyn pan nad yw deiliad y bathodyn yn y cerbyd, nid oedd eraill wedi gweld unrhyw gamddefnydd.

"Cyn i fy mab gael ei eni, wnes i ddim cymryd llawer o sylw. Allwch chi ddim barnu, ond rydyn ni i gyd yn gwneud. Mi fydda i'n edrych ar rai pobl ac yn meddwl 'Ydyn nhw'n anabl?'. Rydw i wedi gweld rhai pobl yn parcio mewn lle parcio hygyrch cyn hercio i mewn i'r siop ar un goes, a hercio allan ar y llall."

Rhiant deiliad Bathodyn Glas, Sir Benfro

Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr eu bod wedi gweld pobl yn parcio mewn lleoedd parcio anabl heb arddangos Bathodyn Glas, rhuthro i mewn i siop ac yna'n ôl i'w car.

"Rwy'n herio os ydw i'n gweld rhywun nad yw'n edrych yn anabl, ond dydw i ddim yn herio'n ymosodol. Rwy'n holi oherwydd y rhagdybiaethau - efallai na fydda i'n gweld beth yw'r broblem. Rwy wir yn gwrthwynebu pobl yn camddefnyddio'r Bathodyn. Os ydych chi'n ei wneud (eu herio) yn ofalus, dydych chi ddim yn gwylltio pobl. "

Deiliad Bathodyn Glas a gofalwr deiliad Bathodyn Glas, Casnewydd

Trafododd llawer o'r cyfranogwyr y canfyddiad o gamddefnyddio ac eglurodd, er y gallai rhai pobl fod yn camddefnyddio'r Cynllun, y gallai unrhyw gamddefnydd cyffredin yn syml fod yn rhywbeth a dybir ac nad yw'n adlewyrchu'r realiti.

"Rwy'n credu ei fod yn ymwneud mwy â chanfyddiad. Rwy'n credu bod nifer y bobl sy'n ei gamddefnyddio yn fach yn ôl pob tebyg, ond mae'n fater mor danbaid fel ei fod yn cael mwy o sylw."

Deiliad Bathodyn Glas, Powys

Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr fod llawer o anableddau yn anweledig a bod yr estyniad yn y meini prawf cymhwyster ar gyfer Bathodyn Glas i'r rhai sydd â namau gwybyddol wedi golygu bod pobl ag anableddau llai gweladwy yn cael eu hystyried yn annheg fel pobl sy'n camddefnyddio'r Cynllun.

"Rwy'n adnabod rhywun a gafodd drafferth ym maes parcio Tesco ychydig fisoedd yn ôl ac roeddwn i'n teimlo drosti. Roedd ganddi tua chwech o bobl yn ei chwestiynu oherwydd ei bod wedi parcio mewn man Bathodyn Glas, gan ddweud "Does gen ti ddim hawl parcio yna, does gen ti ddim anabledd!" - wel efallai bod gan y fenyw honno anabledd na allwch chi ei weld!"

Rhiant deiliad Bathodyn Glas, Sir Benfro

"I'r bobl hynny ag ME sy'n ddigon ffodus i gael Bathodyn Glas, maen nhw'n cael eu cam-drin gan y cyhoedd am nad oes ganddyn nhw gadair olwyn na ffon gerdded - mae pobl yn meddwl eu bod nhw'n camddefnyddio'r system."

Rhiant ymgeisydd Bathodyn Glas y gwrthodwyd ei gais, Ceredigion

Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr fod y cyhoedd wedi dod i arfer ag anabledd yn ymwneud yn bennaf ag anableddau corfforol oherwydd cyffredinrwydd y logo anabledd, sy'n dangos person mewn cadair olwyn. Awgrymodd rhai o'r cyfranogwyr y gallai cyflwyno amrywiaeth o logos anabledd neu fathodynnau lliw gwahanol i ddynodi gwahanol anableddau helpu i fynd i'r afael â cham-drin deiliaid Bathodynnau Glas drwy ddangos bod y Cynllun yn cwmpasu ystod o anableddau.

"Rwy'n sylwi ar wahaniaeth ac yn cael fy ngham-drin pan rwy'n gwisgo'n wahanol. Os bydda i'n gwisgo'n neis ac mae fy ngwallt i'n daclus, byddan nhw'n edrych i fyny ac i lawr arna i ac yn cwestiynu ydw i mewn gwirionedd yn anabl."

Deiliad Bathodyn Glas, Pen-y-bont ar Ogwr

Trafododd rhai o'r grwpiau y rheini sydd ag anableddau amrywiol a allai fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas, gan egluro y dylai fod dyletswydd ddinesig ar bobl i ddefnyddio lle parcio Bathodyn Glas dim ond pan fydd yn hanfodol.

"Os oes gennych chi gyflwr amrywiol, mae cyfrifoldeb arnoch chi fel dinesydd i'w ddefnyddio dim ond pan fo hynny'n briodol ac mae ei angen arnoch chi. Mae'n anodd gorfodi hyn ac felly mae'n ymwneud ag addysg a gwneud y peth iawn."

Deiliad Bathodyn Glas, Sir Gaerfyrddin

Gorfodaeth

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn cytuno er bod *rhywfaint* o orfodaeth, mae'n aml yn brin ac mae lle i wella'n sylweddol.

"Codwyd £70 arna i am fethu â dangos fy mathodyn, ac felly mae rhywfaint o orfodaeth."

Deiliad Bathodyn Glas, Pen-y-bont ar Ogwr

Cytunodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y dylai fod yn ofynnol i'r rhai sy'n cael eu dal yn camddefnyddio'r Cynllun dalu dirwy ariannol sylweddol (awgrymodd un cyfranogwr ddirwy o £1,000) a chael ei Fathodyn Glas wedi'i ganslo. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon gan lawer o'r cyfranogwyr y gallai deiliad Bathodyn Glas nad oedd yn ymwybodol y gallai ei Fathodyn fod wedi'i ddefnyddio heb ei wybodaeth gael ei gosbi'n annheg.

Roedd cynnydd yn nifer yr hapwiriadau gan wardeniaid traffig yn ffordd boblogaidd o orfodi gan lawer o'r cyfranogwyr. Fodd bynnag, roedd gan rai o'r cyfranogwyr bryderon ynghylch dealltwriaeth rhai wardeiniaid traffig o'r hawliau sy'n gysylltiedig â Bathodyn Glas.

"Pan wnes i ddefnyddio fy Mathodyn Glas yn Abertawe, fe wnes i barcio lle mae'n caniatáu i rywun barcio am ddwy awr a dim dychwelyd o fewn awr. Fe es i at swyddog traffig i weld a allwn i barcio am gyfnod hirach fel deiliad Bathodyn Glas ond doedd ganddo ddim syniad."

Deiliad Bathodyn Glas a gofalwr deiliad Bathodyn Glas, Rhondda Cynon Taf

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng tir cyhoeddus a thir preifat, gan egluro y gallai rhai busnesau fod yn amharod i gymryd camau gorfodi yn erbyn y rhai sy'n camddefnyddio'r Cynllun gan y gallai gael effaith niweidiol ar eu busnes.

Trafodwyd y camddefnydd o'r Cynllun ac unrhyw gamau gorfodi cysylltiedig yn bennaf yng nghyd-destun meysydd parcio archfarchnadoedd/siopau (yn hytrach na lleoedd parcio ceir 'ar y ffordd' neu mewn ardaloedd preswyl). Mewn achosion o'r fath, roedd

mwyafrif y cyfranogwyr o'r farn y dylid gosod cyfrifoldeb ar y siop i roi gwybod i'r awdurdod lleol perthnasol am gamddefnydd o'r Cynllun a/neu i gymryd mwy o gyfrifoldeb am orfodi (awgrymodd rhai o'r cyfranogwyr y dylid clampio olwynion).

Yn ogystal â hapwiriadau, holodd rhai o'r cyfranogwyr a ellid defnyddio technoleg i atal unrhyw gamddefnydd o'r Cynllun:

"Roedd achlysur pan es i roi rhif cofrestru fy nghar i beiriant talu a fflachiodd llun o fy nghar ar y sgrin - roedd camerâu yn y bolardiau. Gyda datblygiadau mewn technoleg, a ellir gwneud rhywbeth tebyg i 'blismona' lleoedd parcio anabl sy'n cael eu camddefnyddio?"

Deiliad Bathodyn Glas, Pen-y-bont ar Ogwr

Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr fod angen cyflwyno deddfwriaeth sy'n berthnasol ledled Cymru ar dir cyhoeddus a thir preifat. Os torrir y gyfraith, dylid talu dirwy sylweddol. Gallai hyn hefyd arwain at gysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol ar gyfer y Cynllun, oherwydd pe bai'n cael ei orfodi'n drwyadl, gallai olygu bod llai o bobl yn debygol o gamddefnyddio'r cynllun gan fod y mwyafrif yn annhebygol o fod eisiau dirwy o'r fath.

"Mae dyletswydd dan y Ddeddf Cydraddoldeb, os ydych chi'n gwneud addasiad rhesymol fel lle parcio Bathodyn Glas, mae dyletswydd arnoch chi i'w reoli i sicrhau ei fod yn effeithiol. Os na fyddwch chi'n gwneud hynny, ni ellir ei ystyried yn 'addasiad rhesymol' - ond nid oes modd gorfodi'r Ddeddf Cydraddoldeb fel hyn."

Cyflogai'r Cyngor, Sir Benfro

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn erbyn y syniad o gael llun o ddeiliad y Bathodyn ar flaen Bathodyn Glas, gan gredu ei fod yn mynd yn groes i breifatrwydd unigolyn. Gallai hyn hefyd achosi problemau o ran diogelwch, er enghraifft, os yw person sy'n agored i niwed yn parcio mewn lle parcio Bathodyn Glas yn hwyr yn y nos.

Ymwybyddiaeth y cyhoedd

Roedd rhai o'r cyfranogwyr o'r farn bod sylw anffafriol yn y cyfryngau i'r rhai sydd ag anableddau wedi cyfrannu at ganfyddiad negyddol y cyhoedd o bobl ag anableddau.

"Tydy'r cyfryngau heb helpu oherwydd awgrymir os oes gennych Fathodyn Glas eich bod yn lloffwr mewn rhyw ffordd."

Cyflogai'r Cyngor, Sir Benfro

Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn cytuno bod angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn eu hysbysu o'r ystod o anableddau a allai wneud unigolyn yn gymwys am Fathodyn Glas, a bod unrhyw asesiad angenrheidiol yn drylwyr ac yn gadarn.

Rhannodd y cyfranogwyr nifer o syniadau ynghylch sut y gallai'r cyhoedd fod yn fwy gwybodus am y Cynllun. Dyma rai o'r syniadau mwyaf poblogaidd:-

- Ymgyrch/hysbyseb ar y teledu sy'n dangos ystod o bobl ag anableddau gwahanol yn defnyddio'r Bathodyn Glas;
- Bathodynnau anabledd yn dangos gwahanol logos anabledd neu liwiau i ddynodi gwahanol anableddau;
- Ychwanegu'r ymadrodd '*Nid yw pob anabledd yn weladwy* ' i'r Bathodyn Glas;
- Cynnwys gwybodaeth am y Cynllun yn Rheolau'r Ffordd Fawr.

Eglurodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod cysylltu anabledd â defnyddio cadair olwyn yn y meddylfryd cenedlaethol oherwydd cyffredinrwydd y logo anabledd, sy'n dangos person mewn cadair olwyn.

"Yn sicr mae angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Roeddwn i'n arfer cael pobl yn syllu, hyd yn oed fel defnyddiwr cadair olwyn, yn enwedig pan oeddwn i'n iau ac roedd gen i grŵp o ffrindiau yn y car. Gallech chi ddweud eu bod nhw'n meddwl 'Pam mae grŵp o ferched ifanc yn defnyddio lle parcio hygyrch?' Dim ond ar ôl gweld y gadair olwyn roedd pobl yn rhoi'r gorau i syllu."

Deiliad Bathodyn Glas, Ceredigion

Trafododd rhai o'r cyfranogwyr hefyd ymwybyddiaeth o'r rheolau a'r hawliau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun a'r angen am fwy o eglurder. Er enghraifft, nid oedd rhai o'r cyfranogwyr yn ymwybodol y gall deiliad Bathodyn Glas barcio ar linellau melyn dwbl am hyd at dair awr cyn belled nad ydynt yn achosi rhwystr, tra nad oedd eraill yn ymwybodol bod angen i ddeiliad y Bathodyn Glas fod yn y cerbyd pan fydd aelod o'r teulu, ffrind neu ofalwr yn parcio mewn lle parcio anabl. Credai eraill na allent gael Bathodyn Glas oni bai eu bod yn derbyn Taliad Annibyniaeth Personol, tra bod rhai yn credu bod angen car arnoch i fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas.

Lleoedd parcio anabl a'r amgylchedd adeiledig

Roedd maint a nifer y lleoedd parcio anabl a'r amgylchedd adeiledig cysylltiedig yn thema gyffredin a drafodwyd yn helaeth yn y mwyafrif o'r grwpiau ffocws.

"Pan fydda i'n parcio mewn bae anabl yn y gwaith, mae'r bae o faint arferol a all fod yn anodd. Felly, gofynnais am fae parcio anabl ar y pen fel y galla i agor y drws

yn llawn a symud fy hun allan. Mewn meysydd parcio eraill, rwy wedi gorfod cael rhywun i yrru'r car allan o'r gofod fel y galla i ddod allan."

Deiliad Bathodyn Glas a gofalwr deiliad Bathodyn Glas, Rhondda Cynon Taf

Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr fod rhai lleoedd parcio, mewn rhai meysydd parcio, yr un maint â lleoedd parcio i bobl nad ydynt yn anabl a'r unig wahaniaeth yw'r symbol anabledd sydd wedi'i baentio ar y llawr.

Eglurodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod caniatáu digon o le bob ochr i'r cerbyd ac yn y cefn (er mwyn caniatáu i unrhyw offer anabledd gael ei ddadlwytho yn rhwyddach) yn hanfodol.

"Mae ffrind imi yn ddefnyddiwr cadair olwyn ac mae pobl yn parcio'n rheolaidd ar draws cefn ei char fel na all ddod allan."

Deiliad Bathodyn Glas, Caerdydd

Yn ogystal â maint a hygyrchedd lleoedd parcio anabl, ystyriwyd bod yr amgylchedd adeiledig sydd o amgylch lle parcio yn bwysig iawn. Eglurodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr, yn eu profiad hwy, fod lleoedd parcio anabl yn aml ger llwybrau cerdded canolog. Fodd bynnag, disgrifiodd rhai o'r cyfranogwyr broblemau gyda lleoliad cysgodfannau trolïau mewn archfarchnadoedd, sydd yn aml wedi'u lleoli ymhellach i ffwrdd o'r lleoedd parcio.

"Roedd problem mewn un maes parcio archfarchnad lle cafodd bae ei baentio wrth ymyl palmant isel, a olygai pe byddai unrhyw un wedi parcio yno, y byddai'n amhosibl i ddefnyddiwr cadair olwyn gyrraedd yr archfarchnad. Fe wnes i gwyno i'r rheolwr a'r diwrnod canlynol, cafodd ei orchuddio â llinellau melyn a rhoddwyd bolardiau yno a oedd yn ddigon llydan i sgwter symudedd fynd heibio."

Deiliad Bathodyn Glas a gofalwr deiliad Bathodyn Glas, Casnewydd

Credai'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y dylai lleoedd parcio anabl fod yn unffurf o ran maint, fodd bynnag roedd eithriadau, gyda rhai o'r cyfranogwyr yn egluro bod angen amrywiaeth o leoedd i ddiwallu anghenion unigol deiliad Bathodyn Glas.

"Mae angen lleoedd parcio llydan ar rai pobl ag anableddau penodol, ond does dim angen hynny ar eraill. Dylai fod amrywiaeth o leoedd fel bod lle i'r rhai nad oes angen cadair olwyn arnyn nhw, ond bod angen gofod Bathodyn Glas arnyn nhw."

Deiliad Bathodyn Glas, Pen-y-bont ar Ogwr

Disgrifiodd rhai o'r cyfranogwyr yr anawsterau y maent wedi'u hwynebu mewn meysydd parcio aml-lawr lle nad yw'r nenfydau yn aml yn ddigon uchel ac nad yw'r lleoedd parcio yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad rhwydd i'r unigolyn ac unrhyw offer sydd ganddynt (er enghraifft, sgwter symudedd).

"I mi, does dim ots os yw wrth ymyl drws y siop - yr hyn sydd ei angen arna i yw gofod."

Deiliad Bathodyn Glas, Sir Gaerfyrddin

Roedd diogelwch hefyd yn thema gyffredin wrth drafod yr amgylchedd adeiledig. Gall meysydd parcio yn aml fod yn beryglus i bobl ag anableddau os yw'r seilwaith yn annigonol.

"Alla i ddim rhoi fy siopa yng nghefn y fan oherwydd yr holl declynnau codi, felly rhaid imi ei roi ar y sedd y tu mewn i'r drws llithro fel y galla i gael y siopa i mewn ac allan. Weithiau rhaid imi barcio dros ddau fae er mwyn gallu cael pethau allan o'r cerbyd."

Deiliad Bathodyn Glas, Ceredigion

Bathodynnau Glas Dros Dro

Nid oedd llawer o'r cyfranogwyr yn ymwybodol bod bathodynnau dros dro ar gael.

"Fe es i â ffrind a oedd yn cael cemotherapi ar y pryd i gael Bathodyn Glas. Dywedodd yr ysbyty wrthi fod ganddi hawl i gael Bathodyn Glas dros dro. Ffoniodd Neuadd y Sir a ddywedodd y byddai'n anfon ffurflen ati ond chafodd hi yr un erioed. Anfonwyd llythyr apwyntiad ati pan oedd yn ofynnol iddi gyflwyno ei hun yn Neuadd y Sir. Ffoniodd eto i ofyn am ffurflen ond nid anfonwyd dim. Cyrhaeddodd Neuadd y Sir a chafodd ffurflen, ond y ffurflen anghywir oedd hi. A all fod system lle'r cyfan sydd angen ichi ei ddangos yw llythyr gan arbenigwr? Oherwydd pan rydych chi'n sâl iawn, mae mynd drwy broses o'r fath yn drallodus iawn."

Deiliad Bathodyn Glas, Abertawe

Credai'r rhai a oedd yn ymwybodol o Fathodynnau Glas dros dro y dylid symleiddio'r broses gwneud cais cymaint â phosibl gan fod y rhai sy'n gwneud cais yn aml yn ddifrifol wael ac yn cael triniaeth sy'n golygu y gall y broses yn aml fod yn fwy beichus iddynt.

"Roedd fy ngwraig mewn damwain, felly ffoniais i wneud cais am fathodyn dros dro. Gofynnwyd imi a gafodd y ddamwain fwy na chwe mis yn ôl. Dywedais na, ond ces i wybod bod yn rhaid iddi fod â'r cyflwr am chwe mis neu fwy - mae'n hurt!"

Deiliad Bathodyn Glas, Rhondda Cynon Taf

Y broses o ailwneud cais

Cytunodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fod y broses o ailwneud cais am Fathodyn Glas yn syml, ond roedd eraill, yn enwedig yng Ngwynedd, Sir y Fflint ac Ynys Môn, yn teimlo bod y broses o ailwneud cais yn anodd. Mae angen dogfennau adnabod wrth ailwneud cais, ond nid yw rhai pobl yn yrwyr cofrestredig ac nid oes ganddynt basbort.

Talu am barcio

Mewn rhai lleoedd, nid yw'n glir a oes angen i ddeiliaid Bathodyn Glas dalu ai peidio.

"Pam nad oes ganddyn nhw y logo yn dweud a ydych chi'n talu ai peidio?"

Deiliad Bathodyn Glas, Sir y Fflint

Roedd dryswch penodol rhwng meysydd parcio cyhoeddus a phreifat ac unrhyw ofynion talu cysylltiedig.

"Mae'r system o godi tâl yn loteri cod post."

Deiliad Bathodyn Glas, Gwynedd

Roedd yn amlwg gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr bod rhai ardaloedd yn codi tâl am barcio mewn lleoedd parcio Bathodynnau Glas, tra nad yw eraill yn gwneud hyn. Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr fod consesiynau'n cael eu cynnig i ddeiliaid Bathodyn Glas mewn rhai ardaloedd, fel amser ychwanegol.

Eglurodd llawer o'r cyfranogwyr fod pobl ag anableddau yn aml yn wynebu mwy o amddifadedd ariannol na'r rhai sydd heb anableddau ac felly mae'n anodd dod o hyd i arian i dalu i barcio o incwm sydd eisoes yn gyfyngedig.